**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru

27 Hydref 2022

Annwyl Rebecca

## Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Efallai eich bod yn ymwybodol ein bod wedi cynnal sesiynau tystiolaeth gyda Chadeiryddion y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig a chynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 12 Hydref. Roedd y sesiwn yn gyfle i'r Aelodau drafod eu prif amcanion a'u huchelgeisiau yn y tymor byr a'r tymor canolig gyda Chadeiryddion y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ynghyd â'r prif heriau sy'n eu hwynebu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Cyfeiriodd Cadeiryddion y Cyd-bwyllgorau Corfforedig at broblemau technegol yn ymwneud â statws TAW Cyd-bwyllgorau Corfforedig a threth gorfforaeth fel rhai o'r prif heriau sy'n wynebu'r Cyd-bwyllgorau ar hyn o bryd. Dywedodd Cadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru na fydd yn gallu gweithredu ei fargen twf heb hawliau benthyca a datrys y problemau sy'n ymwneud â threth gorfforaeth a TAW. Dywedodd wrthym hefyd y gall methu â datrys y broblem TAW arwain at "gost ychwanegol o £40,000, allan o wariant o £360,000" ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig hwn yn unig. Mae hwn yn swm sylweddol ar adeg pan fo cyllid awdurdodau lleol eisoes wedi'i ymestyn i'r eithaf.

Fe gofiwch inni drafod y materion hyn gyda chi yn ystod ein sesiwn graffu ar 29 Medi. Roeddem yn falch o glywed bod datrysiad wedi'i ganfod i'r broblem TAW, yn seiliedig ar y ffaith i Lywodraeth y DU osod deddfwriaeth, ac fe wnaethoch ddweud bod disgwyl i hyn fod ar waith erbyn y flwyddyn ariannol nesaf. Fe wnaethoch gydnabod bod problemau heb eu datrys yn ymwneud â threth gorfforaeth, ond roeddech yn gadarnhaol y gellid datrys y rheiny hefyd. Hoffem bwysleisio pwysigrwydd dod o hyd i ddatrysiad i'r mater hwn ar frys. Clywsom fod problemau o'r fath yn debygol o atal cynnydd o ran datblygiad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a gallent gyfyngu ar eu gallu i gyrraedd eu potensial llawn. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf cyn diwedd y flwyddyn am y trafodaethau i ddatrys y problemau sy'n ymwneud â threth gorfforaeth.

Roedd y cadeiryddion yn pryderu am y costau gweinyddol a oedd ynghlwm â sefydlu a rhedeg y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Clywsom fod y gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 2022-23 yn y gogledd tua £360,000, ond y bydd yn rhaid iddi gynyddu i £640,000 i'w galluogi i "aros yn llonydd". Mynegodd Cadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru bryderon yn ymwneud â gallu awdurdodau lleol i ariannu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol o dan yr amodau economaidd presennol:

> *"Mae ein cynghorau ni'n wynebu sefyllfa wirioneddol argyfyngus y flwyddyn hon a'r flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd i ddod, ac os oes rhestr toriadau, bydd y cyd-bwyllgor ar ben y rhestr honno, dwi'n credu."*

Rydym yn pryderu bod rhai awdurdodau lleol eisoes yn trafod y posibilrwydd o gwtogi eu cyfraniadau ardoll i ariannu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig oherwydd yr hinsawdd economaidd a'r ffaith nad oes digon o adnoddau ar gael. Gallai hyn, o bosibl, danseilio'u gwaith fel cyrff rhanbarthol, ac o bosibl beryglu eu gallu i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol. O ganlyniad, codwyd cwestiynau am werth ychwanegol sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig gyda phwysau ariannol o'r fath, er y derbyniwyd fod y cyrff hyn yn dal i fod yn newydd iawn. Byddem yn ddiolchgar am eich barn ar y materion hyn, yn enwedig mewn perthynas â gwerth ariannol ychwanegol Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Rydym wedi cytuno y byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ystod tymor y Senedd hon.

Yn gywir

John

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.